# CYNGOR CYMUNED LLANWNDA
## COFNODION – CYFARFOD MEDI 2021

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | **Nos Fercher, 22ain o Fedi, 2021** |
| **AMSER** | **7.00yh Cyfarfod Llawn y Cyngor** |
| **LLEOLIAD** | **AR LEIN DRWY MICROSOFT TEAMS** |
| **CADEIRYDD** | **Huw Rowlands** |

| | |
|---|---|
| 1. | **CROESO** |
| | Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.<br>Yn bresennol heno roedd Michelle Williams (MW), Elin Evans (EE), Jason Hunt (JH), Aeron M Jones (AMJ) a Gillian Wynne Thomas (Clerc). |
| 2. | **YMDDIHEURIADAU** |
| | Peter Roberts (PR), Nerys Evans (NE), Gwilym Thomas (GT), Gwilym Williams (GW), Tom Ellis (TE). |
| 3. | **DATGAN BUDDIANT** |
| | Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad ar y noson. |
| 4. | **CADARNHAU COFNODION GORFFENNAF 2021 A MATERION YN CODI** |
| | Cynigiodd MW gywirdeb y cofnodion gyda JH yn eilio a phawb yn cytuno<br><br>**a) GW - PONT DYNN LLWYN - DION ROBERTS**<br>Derbyniwyd diweddariad gan GW cyn y cyfarfod nad oedd Dion Roberts wedi ei gwrdd fel y trefnwyd i drafod y coed oedd wedi eu plannu ar y safle ac yn creu pryderon. Yn hytrach roedd wedi derbyn ymddiheuriadau gan Dion ac addewid y buasai yn trefnu gwneud asesiad o'r coed ac yn ei ddiweddaru o'i benderfyniadau.<br><br>**b) LLWYBR BRYN GWYN**<br>Adroddodd y clerc eu bod wedi derbyn gwybodaeth gan Wyn Williams ei fod yn gorfod tynnu dol ei gais i ddarparu gwaith yn Nhryfan Junction oherwydd newidiadau i drefniadau busnes gyda hurio peiriannau. Cynigiodd MW ac eiliodd JH I dderbyn pris DH I ddarparu'r gwaith - y clerc i drefnu.<br><br>**c) SBWRIEL A THORRI GWAIR CAE CHWARAE RHOSGADFAN**<br>Ymddiheurodd y clerc am gam-ddallt bwriad y Cyngor iddi drefnu darpariaeth o'r gwaith am fwriad i gadarnhau pris i'w ddarparu. Adroddodd y clerc bod DH yn hapus i barhau i dorri'r gwair - cytunwyd gofyn I Wyn Williams ychwanegu'r maes chwarae i'w gontract presennol gyda'r un telerau a Chae Chwarae Rhostryfan. |


*Clerc Cyngor Cymuned Llanwda Community Council Clerk* *Ffon / Tel: 07979 438 307*
*1 Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon, Gwynedd LL54 7HP* *E.bost / E.mail: clercllanwnda@yahoo.co.uk*

| 5. | MATERION MISOL |
|---|---|

a) **DIWEDDARIADAU AWST**

**i. CWYN AM GYFLWR LÔN LLWYN ONN A LON Y BECWS RHOSTRYFAN**

Adroddodd y clerc ei bod wedi derbyn cwyn gan drigolion Rhostryfan am gyflwr wyneb Lôn Llwyn Onn a safon gwaith torri gwair a llwyni oedd hefyd yn broblem ar Lon y Becws.

Derbyniwyd ymateb gan Ian Morgan bod y contractwr torri ymylon yn gweithio drwy'r rhaglen ar hyn o bryd ac eisoes wedi bod ar hyd y ddwy ffordd cafodd eu nodi gyda thractor a flail. Mae dal angen strimio ymylon er mwyn tacluso'r ffyrdd yma, ac mae'r contractwr yn cadw rhestr o leoliadau sydd angen sylw o'r fath. Bydd yn amlygu'r ddwy ffordd iddynt er mwyn sicrhau bo'r gwaith strimio yn cael ei wneud.

Roedd AMJ wedi derbyn cytundeb blaenorol bydd gwaith ar wyneb y lon yn cael ei ddarparu pan fydd cyllideb ar gael.

**ii. CAIS AM REILIAU GYFERBYN A GIÂT CAE CHWARAE RHOSGADFAN**

Roedd y Clerc wedi derbyn cais gan DH a'i dad yng nghyfraith bod angen rheiliau i arbed plant redeg yn syth i'r lon o'r cae chwarae yn Rhosgadfan. Ychwanegodd ei bod wedi gyrru cais ymlaen at Ian Morgan ond nid oedd wedi derbyn cyswllt yn ôl. Esboniodd AMJ ei fod hefyd wedi dilyn y mater ac wedi derbyn cadarnhad mai cyfrifoldeb y Cyngor Cymuned fydd ei archebu gan mae nid cae chwarae'r Cyngor Sir yw'r safle.

Y Clerc I ofyn am ganiatâd i'r Cyngor Sir.

**iii. CWYN AM GYFLWR Y GRID GWARTHEG OCHOR FRON I BENTREF RHOSGADFAN**

Adroddodd y Clerc ei bod wedi rhoi cwyn i'r Cyngor Sir ond heb eto dderbyn ymateb. Nododd AWJ ei fod wedi adrodd am y gwyn yma sawl gwaith. Cytunodd yr aelodau bod potensial mawr am ddamwain erbyn hyn. Y Clerc I ail adrodd I Cyngor Gwynedd.

b) **CYFETHOL AELODAU**

Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn cais gan Alan Hughes I ymuno a'r Cyngor ar sedd wag Rhostryfan. Trafodwyd ei gefndir a chynigiodd AWJ ei gyfethol gydag EE yn eilio, cytunodd pawb. Y Clerc I'w wahodd i gyfarfod mis Hydref.

Y Clerc I ail hysbysebu sedd wag Rhosgadfan ar tudalen Facebook y Cyngor a'r wefan.

c) **AWJ -HOLIADUR Y CYNGOR A CHYNLLUN 5 MLYNEDD**

Gan fod yr aelodau yn awyddus iawn i symud ymlaen gyda'r ymgynghoriad ac AMJ yn ei chael yn anodd ymdopi gyda salwch teuluol ac iechyd ei hun a chyfrifoldebau eraill cynigiodd MW ddylunio templed yr ymgynghoriad erbyn y cyfarfod yn fis Hydref I'r aelodau i'w dderbyn neu gynnig argymhellion.

Adroddodd y Clerc bod Steven Witten wedi cutuno bydd hefyd posib ei gynnal ar lein. Cytunodd yr aelodau mae ar bapur fydd y ffor orau ymlaen.

d) **CAIS AM GYFRANIAD AT DDIFFILIWR YN BLYTHE FARM**

Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn cais gan gynrychiolydd o Blythe Ffarm am nawdd gan y Cyngor tuag at diffiblwr gyda'r bwriad ei sefydlu ym mynedfa Blythe Farm. Teimlad y busnesau oedd bod ymwelwyr i'r safle a thrigolion cyfagos mewn risg gan nad oedd y diffiblwr agosaf o fewn yr amserlen 8 munud i ymateb i argyfwng.

Cynigiodd EE I'r Cyngor gyfrannu £50 gyda MW yn eilio gyda'r amod i dderbyn tystiolaeth ei archebu yn gyntaf.

e) **CYSGODION BWS LLANWNDA**

Nid oedd y clerc wedi derbyn gohebiaeth yn hysbysebu'r Cyngor am fwriad cynnal y gwaith blaen llaw. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyngor Sir am y dryswch gyda gwybodaeth bod bwriad gosod sgriniau 'Real Time Information' ynddynt hefyd fydd yn galluogi teithwyr wybod pa fysiau sydd yn gwasanaethu'r lloches. Mae hyn yn rhan o brosiect T2 (Trawscymru) i uwchraddio llochesi ar draws Cymru. Esboniodd MW bod darparwyr y gwaith wedi cwyno am gyflwr y llochesi ac nodwyddau wedi ei gadael. Nid oedd y clerc wedi derbyn unrhyw gwyn gan y contractwr glanhau yn flaenorol. Cadarnhaodd y clerc bydd cyfrifoldeb am y llochesi yn parhau gyda'r Cyngor.

Croesawodd yr Aelodau'r wybodaeth

| | |
|---|---|
| | f) **DAMWAIN GER YR HEN GAE CHWARAE YN RHOSGADFAN**<br>Adroddodd MW bod damwain wedi digwydd ger bron y cae chwarae yn ddiweddar a'i bod wedi derbyn cwyn am ordyfiant o'r safle awr cyn y ddamwain.<br>Cadarnhaodd yr Aelodau mae Pentref Rhosgadfan yw perchnoga'r cae gyda Phwyllgor yn gyfrifol amdano. Gan mai dim ond unigolyn sydd bellach ar y Pwyllgor ac Ymddiriedolwr anodd iawn bydd ffeindio ffordd ymlaen i ddatrys dim heb gael trigolion i wirfoddoli ag ymuno ag ef.<br>Yn gyfreithiol ni chaiff y Cyngor Cymuned dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am y safle. Cynigiodd AMJ dorri'r brigau sy'n gordyfu i'r lon, esboniodd ei fod wedi derbyn caniatâd yr Ymddiriedolwr, y clerc i ofyn I DH am gymorth ar fore Sadwrn am 10. Ni fydd modd trin y chwyn clymiad Japaneaidd gan fod hyn yn fater i arbenigwr ar gost o filiynau tros flynyddoedd. |
| 6. | **DERBYN ADRODDIADAU** |
| | **ADRODDIAD YR ARCHWILWYR MEWNOL**<br><br>Mabwysiadwyd a chymeradwywyd yr adroddiad. Nododd y clerc bod sylwadau'r adroddiad erbyn hyn wedi ei ddatrys a bod hysbyseb o daliadau i aelodau wedi ei chyhoeddi ar y wefan |
| 7. | <u>**MATERION CYNLLUNIO**</u> |
| | Nid oedd cais i'w drafod ar y noson |
| 8. | <u>**MATERION ARIANNOL**</u> |

**a) CYSONIAD**

Cymeradwyed y cysoniad a chytunwyd i dalu cyflog y clerc drwy reol sefydlog yn y dyfodol

**b) DATGANIADAU BANC**

<u>**Cyfrif Cyfredol – 29 Gorffennaf – 28 Awst 2021**</u>

| | Taliadau | Derbyniadau |
|---|---|---|
| **Balans agor – £5,595.50** | | |
| | 575.00 | |
| **Balans Cau - £5,020.50** | | |

<u>**Cyfrif Cadw – 27 Gorffennaf – 30 Awst 2021**</u>

| | Taliadau | Derbyniadau |
|---|---|---|
| **Balans agor – £58, 918.40** | | |
| | | 14,420.00 |
| **Balans Cau - £73,338.40** | | |

**c) TALIADAU I'W CYMERADWYO**

Cyflog a threuliau'r Clerc £575.00

Rhoddwyd caniatâd i'r clerc sefydlu rheol sefydlog ar gyfer ei chyflog ar gyfer y dyfodol.

| | |
|---|---|
| 9. | **GOHEBIAETH** |
| 10. | **a) CYHOEDDI CYNIGION CYCHWYNNOL – COMISIWN FINNIAU I GYMRU**<br>Esboniodd AMJ fraslun o'r cynigion - Bydd Llanwnda yn cael ei rannu i ddwy ward sef Rhosgadfan yn ymuno gyda Charmel a Bron a Rhostryfan, Dinas a Saron yn ymuno gyda Maen Coch. Bydd hyn yn gyfartaledd o 1200 o etholwyr i'r ddwy Ward. Bydd hyn yn golygu bydd dau aelod Lleol yn cynrychioli Ward Llanwnda. Nid fydd y newidiadau yn effeithio oriau gwaith y clerc.<br><br>**b) CAIS AM ADBORTH PARTHED PECYN DECHREUWYR ODDI WRTH GADWCH GYMRU'N DACLUS TRWY GYNLLUN LLEOEDD LLEOL AR GYFER NATUR.**<br>Adroddodd AMJ bod y wybodaeth yn cyfeirio At gynllun codi ysbwriel yn Ddinas - nid oedd angen sylw pellach.<br><br>**c) YMGYNGHORIAD AR DRETHI LLEOL AR GYFER AIL GARTREFI A LLETY HUNANARLWYO**<br>Rhannwyd y wybodaeth gyda'r aelodau blaen llaw. Nodwyd bod 14 cwestiwn i'w ateb.<br>Cytunwyd bydd HR yn dylunio ymateb I'r Cyngor Cymuned ei gysidro derbyn yn y cyfarfod nesaf**.**<br><br>**d) CYFARFOD GRŴP CYSWLLT CHWAREL MOEL TRYFAN AC ALEXANDRA**<br>Adroddodd y Clerc ni fydd cyfarfod Medi yn cael ei gynnal. Y Clerc ddiweddaru'r aelodau o ddyddiad y Cyfarfod nesaf.<br><br>**e) FFRAMWAITH ADFYWIO CYNGOR GWYNEDD - ARDAL NI 2035**<br>Gan nad oedd holl aelodau yn bresennol heno cytunwyd i ohirio'r mater tan y cyfarfod nesaf. Cytunwyd yn gynharach i'r clerc drefnu cyfarfod wyneb yn wyneb fis nesaf. Y clerc i ofyn am gopïau caled i'w rannu gyda'r aelodau heb gyswllt i'r rhyngrwyd<br><br>**f) NODYN BRIFFIO: AR GYFER CYNGHORAU CYMUNED A THREF - CYFARFODYDD AML-LEOLIAD**<br>Adroddodd y clerc nid canllawiau statudol yw'r nodyn briffio hwn, ond fe'i tynnir o ganllawiau statudol drafft ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae'n darparu gwybodaeth, wedi'i llywio gan y canllawiau hynny, i gefnogi mynediad ehangach at drafodion cyngor yn unol â'r darpariaethau yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.<br>Mae Adran 47 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ('Deddf 2021') yn darparu ar gyfer presenoldeb aml-leoliad mewn cyfarfodydd cynghorau cymuned a thref (a nodir o hyn ymlaen fel 'cyngor cymuned'). Y gofyniad yw bod yn rhaid i gyngor cymuned wneud a chyhoeddi trefniadau ar gyfer galw cyfarfodydd, sy'n caniatáu – ond nid yn ei gwneud yn ofynnol – i gyfranogwyr fod mewn sawl lleoliad. Mae Atodlen 4 i'r Ddeddf hefyd yn cynnwys newidiadau eraill sy'n ymwneud â hysbysiadau cyngor cymuned e.e. rhoi hysbysiad o gyfarfodydd a'u trefniadau a chyhoeddi nodyn byr o fewn 7 diwrnod i'r cyngor. Dylid darllen y rhain ar y cyd ag adran 55 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynghorau cymuned sicrhau bod gwybodaeth a dogfennau penodol ar gael yn electronig (gan gynnwys cofnodion cyfarfodydd).<br>Cytunodd y Cyngor I'w fabwysiadu.<br><br>**g) PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL - DATGANIAD O FFURFLENNI TALU AR GYFER 2020 – 2021**<br>Adroddodd y clerc ei bod wedi gyrru ymateb gyda gwybodaeth nad oedd yr aelodau wedi derbyn lwfans am 2020 - 2021 |
| 11. | **MATERION LLEOL** |
| | **a) GW – AWYDDUS I GYFARFOD WYNEB YN WYNEB**<br>Rhannodd y clerc sylwadau oedd wedi eu derbyn cyn y cyfarfod gan GW a chais I'r cyfarfodydd cael ei cynnal wyneb yn wyneb. Esboniodd y cadeirydd ei fod wedi bod yn dilyn argymellion Un Llais Cymru. Cytunodd yr aelodau I'r cyfarfod fynd ymlaen I'w gynnal wyneb yn wyneb fis Hydref.<br><br>**b) CWYN AM DYRCHOD DEAR YN Y FYNWENT**<br>Adroddodd y clerc ei bod wedi derbyn cwynion ychwanegol am y tyrchod yn ail godi yn y fynwent. Consensws y noson oedd I'w drafod eto fis nesaf I alluogir Cyngor gytuno ar y cyd gyda ffordd ymlaen. |

| 12. | **CYFARFOD NESAF Y CYNGOR** |
|---|---|
| | Cytunwyd bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal wyneb yn wyneb yn y Clwb Mountain Rangers ar yr 20fed o Hydref 2020 gyda darpariaeth aml leoliad.<br><br>I'w gynnwys ar y Rhaglen:<br><br>• Cwyn am dyrchod dear yng Nghefnfaes<br>• Ceisiadau am nawdd<br>• Fframwaith Adfywio Cyngor Gwynedd - Ardal Ni 2035<br>• Asesiad Risg Cae Chwarae Rhosgadfan a Rhostryfan |